Cododd y bwa a'i dynnu'n araf . . .

(dewrder / penderfyniad / ymddiriedaeth)

Ym mynyddoedd y Swistir roedd yr heliwr William Tell yn byw. Doedd neb i'w guro ar saethu efo bwa saeth. Yng nghyfnod William doedd y Swistir ddim yn wlad rydd; roedden nhw'n cael eu llywodraethu gan bobl Awstria. Rhoddwyd dyn o'r enw Gessler yn lywodraethwr ar y Swistir a'i phobl. Dyn creulon oedd Gessler. Byddai'n rhaid i bobl y wlad blygu i ddeddfau creulon Gessler. Dim ond un dyn oedd yn barod i herio Gessler a hwnnw oedd William Tell. Gwyddai Gessler yn dda fod y bobl yn ei gasáu ac felly roedd am ddangos iddyn nhw unwaith ac am byth mai ef oedd y meistr.

"Dos i chwilio am bolyn hir," meddai wrth un o'i weision, "ac wedyn dos i chwilio am un o fy hetiau, nid yr orau, ond un o'r hen rai sy'n hongian yn y cyntedd." Pan ddaeth y gwas efo'r polyn a'r het gorchmynnodd Gessler ei fod yn gosod y polyn yng nghanol y dref a gosod yr het ar ei ben. "Mae'n rhaid i ti ddweud wrth bawb fydd yn mynd heibio'r polyn hwn i foesymgrymu iddo." Gosodwyd y polyn yng nghanol y farchnadfa.

Roedd William Tell yn byw mewn pentref bychan heb fod ymhell o'r dref. Un bore daeth ar ei daith fel arfer i'r dref. "Tyrd," meddai wrth ei fab, "mi awn â'r afalau yma i'r dref ac fe awn i am dro i weld Taid yr un pryd." A ffwrdd â nhw. Doedd neb wedi dweud wrth William fod yn rhaid iddo foesymgrymu i'r polyn. Pan aeth William a'i fab heibio'r polyn gwaeddodd un o'r gwarchodwyr, "Hei, pam nad wyt ti wedi moesymgrymu i'r polyn?"

"Pam y dylwn i foesymgrymu i bolyn a het ar ei ben?" gofynnodd William yn heriol.

"Dyna'r gyfraith. Yr het yna ydi het y llywodraethwr ac mae'n rhaid i bawb foesymgrymu i'r polyn," meddai'r gwarchodwr.

"Rydw i'n ddyn rhydd," meddai William, "a dydw i ddim am foesymgrymu i bolyn a het ar ei ben."

Gafaelodd y gwarchodwr yn William Tell. Rhedodd y dorf i weld beth oedd yn digwydd. A phwy ddaeth gyda'i osgordd ond Herr Gessler ei hun. Dywedodd y gwarchodwr wrth Gessler beth oedd wedi digwydd.

Wynebodd Gessler William Tell â'i lygaid yn melltennu ac meddai, "Maen nhw'n dweud i mi dy fod yn saethwr heb ei ail. Rwyf am dy roi ar brawf. Rwyt ti wedi torri'r gyfraith ond os gwnei

di daro'r afal yma cei fynd yn rhydd. Rwyf am osod yr afal ar ben dy fab dy hun."

"Os wyt ti am weithredu," meddai William Tell, "rwyf am i ti fy nisgyblu i a phaid ti â gwneud dim drwg i'm mab."

"Dydw i ddim ofn. Mi wna i aros yn llonydd. Rydw i'n gwybod y byddwch yn sicr o daro'r afal," meddai'r mab wrtho.

Cerddodd y bachgen yn hamddenol tua'r goeden a gosodwyd yr afal ar ei ben. Tynnodd William ddwy saeth o'i gawell saethu. Rhoddodd un yn ei felt a'r llall yn y bwa. Yn araf cododd y bwa a'i dynnu'n ôl yn araf a saethodd. Aeth pob man yn ddistaw. Ac yna daeth cymeradwyaeth a bonllefau. Roedd yr afal wedi hollti'n ddau. Trodd Gessler ato'n chwyrn, "Cei fynd, ond dywed pam y rhoddaist y saeth arall yn dy felt?"

"Pe byddai'r saeth gyntaf," meddai William, "wedi taro blewyn o wallt fy mab byddai'r ail wedi trywanu trwy dy galon di."

Gorchmynnodd Gessler ei filwyr i garcharu Tell ond, ar ei ffordd i'r carchar, dihangodd. Cododd y bobl fel un yn erbyn Gessler a daeth y Swistir yn wlad rydd.

Adnod: "Y mae gennym ni Gyfraith, ac yn ôl y Gyfraith honno fe ddylai farw, oherwydd fe'i gwnaeth ei hun yn Fab Duw." Ioan 19:7

Gweddi: O Dduw, diolch i ti am bobl ddewr sy'n barod i herio grym llywodraethau'r byd. Amen.

Trafod:

- Beth sy'n digwydd pan fo pobl fel Gessler yn rheoli gwledydd y byd?
- Beth oedd rhinweddau William Tell yn eich barn chi?